CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

**Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 13eg o Fai 2026 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng. John P Jones, Sion Alun Roberts, Catrin Jones Johnson, Berwyn Harding, Wyn Lewis, Idris Jones, Rhys Davies, John P Roberts, Lynne Mccrickett, a Huw T Jones (Clerc)

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Cyng John P Jones.**

Nid oedd **datganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda, ac aethpwyd ymlaen I gael adroddiad gan y Cadeirydd am waith y Cyngor yn 2025-26.

Diolchodd i bawb sydd am eu gwaith yn ystod y flwyddyn aeth heibio. Dywedodd ei fod wedi gorffen dwy flynedd fel Cadeirydd. Dywedodd mai un rhan amlwg o'r gwaith dros y deuddeg mis dwetha oedd y mantais a gafodd yr ardal o gynllun grant 'Gwynedd Ni', a llwyddwyd i gael meinciau a byrddau newydd, potiau blodau, gwella safle yr hen fynwent a chael bwrdd gwybodaeth gyda enwau creigiau Cywarch fydd ar gof a chadw am amser hir. Diolchodd yn arbennig i bawb fuodd ynglwm wrth hyn. Aeth ymlaen I ddweud fod y gwaith wedi parhau i sicrhau fod arian trethdalwyr yn cael eu defnyddio yn gyfrifol ac effeithiol. Bu'r Cyngor yn ymateb ar faterion cynllunio drwy gydol y flwyddyn, ynghyd a danfon ymlaen materion i adran priffyrdd a Cyngor Gwynedd, ac hefyd i'r Adran Cefnffyrdd. Ymatebwyd i bob ymholiad gan y cyhoedd yn brydlon. Yn ol yr arfer, trefnwyd a gosodwyd Coeden Nadolig o flaen y Neuadd yn Dinas. Roedd gwaith wedi ei wneud ar lwybr i'r gofgolofn, a sicrhawyd fod mynwentydd Mallwyd, Dinas a Llanymawddwy yn cael gofal. Eleni roedd gontracwr o'r newydd ar gyfer y gwaith o dorri gwair. Bu nifer o'r Cynghorwyr yn cynrychioli y Cyngor ar gyrff neu fudiadau eraill yn yr ardal, megis y neuaddau pentref, Un Llais Cymru a Biosphere Dyfi a Pwyllgor yr Hen fynwent. Rhoddwyd ystyriaeth i hyfforddiant Cynghorwyr, a chymerwyd rhan yng Ngwasanaeth Sul y Cofio gan Gynghorwyr. Diolchodd eto i bawb, gan gynnwys y Clerc am ei holl waith.
Ers y cyfarfod diwethaf, roedd llythyr o ymddiswyddiad i law gan Arfon Hughes, a oedd wedi ei ddanfon i bob Cynghorydd. Diolchodd iddo ar ran pawb am ei waith dros y blynyddoedd.
Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd peidio llenwi y sedd, gan byddai cyfnod Etholiad eto yn Ebrill 2027.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a** gynhaliwyd ar y 4ydd o Fawrth ar gynnig Cyng Rhys Davies a'i eilio gan Cyng Wyn Lewis.
4. **Materion yn codi**

a) **Materion Llwybrau, Priffyrdd a Chefnffyrdd. –** adroddwyd am y materion diweddaraf, yn cynnwys cau y stryd yn Dinas ar 18fed Mai.

**b) Dyfodol Eglwys Llanymawddwy**. – nid oedd unrhyw ddiweddaraid

c**) Safle y gofgolofn yn Minllyn –** nid oedd unrhyw ohebiaeth pellach i law..

d) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned - nodwyd ail-agor y gronfa am 2026, a thrafodwyd syniadau. Cyflwynwyd 4 syniad, a chymerwyd y cyfrifoldeb fel a ganlyn; (a phwysleisiwyd dau Gynghorydd y weithio gyda'i gilydd bob tro)

- Cyng Sion A. Roberts/John P Roberts – gwneud bwrdd gwybodaeth am enwau mynyddoedd ym mhen uchaf Llanymawddwy, a'i roi ger Brynawel.
- Cyng Lynn Mcrickett/Gwella'r arhosfan bws yn Minllyn – Perspex newydd a paentio.
- Cyng John P Roberts/Sion A Roberts – cael cerrig i wella y maes parcio yn Llanymawddwy.
- Cyng Wyn Lewis/ Lynn Mcrickett – cael arwydd Parcio yn y Plas yn Dinas.

**Dywedodd y Clerc fod rhaid cael amcangyfrifon erbyn 15fed o Fehefin, a bod rhaid i'r gwaith gael ei gwbwlhau erbyn diwedd Rhagfyr 2026. (ac ni fyddai estyniad eleni)**

5.**Ethol Swyddogion 2026-27.**

a) **Cadeirydd** – ar gynnig Cyng John P Roberts a'I eilio gan Cyng Wyn Lewis, cytunwyd yn unfrydol ar enw Cyng Sion Alun Roberts yn Gadeirydd am 2026-27.

b) **Is- Gadeirydd** - ar gynnig Cyng John P Roberts a'I eilio gan Cyng Idris Jones, cytunwyd yn unfrydol ar enw Cyng Wyn Lewis yn Is- gadeirydd am 2026-27.

**6. Telerau a Chostau y Clerc 2026-27**

Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorwyr gael trafodaeth eu hunain yn y cyswllt yma, a gadawodd y Clerc yr ystafell. Cadarnhawyd cynnydd o £200 yn y gydnabyddiaeth ar gyfer 2026-27.

7. **Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Mawddwy ar gyfer 2026/27.**

Cadarnhawyd y dyddiadau canlynol; 08/07/26, 2/09/26, 7/10/26, 9/12/26, 20/01/27, 3/03/27.

Byddai'r Clerc yn cadarnhau y dyddiadau ar wefan y Cyngor.

8. **Dosbarthwyd ffurflenni cofrestr buddiannau i'w cwbwlhau gan Gynghorwyr, a derbyniwyd y cyfan I law**

Ar gynnig Cyng Catrin Johnson a'I eilio gan Cyng Idris Jones, a gyda chytundeb pawb, mabwysiadwyd y canlynol;

**Cod ymddygiad** – (roedd copiau wedi eu danfon i bawb drwy e-bost)

**Rheoliadau ariannol a rheolaidau sefydlog**

Hefyd mabwysiadwyd y polisiau eraill – **pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth** ( sydd oll ar wefan y Cyngor)

**Asesiad risg y mynwentydd a materion cyffredinol ac ariannol y Cyngor** (a oedd wedi eu dosbarthu ymlaenllaw I'r Cynghorwyr) Yn y cyswllt yma, penderfynwyd trefnu bod 2 Gynghorydd yn ymweld a phob mynwent, fel a ganlyn;

- Dinas Mawddwy – Cyng Idris Jones a John P Jones
- Llanymawddwy – Cyng John P Roberts a Sion Alun Roberts

- Mallwyd – Cyng Lynn Mcrickett a Catrin Johnson

**Cofrestr asedau** – cadarnhawyd y ffigwr o £7700 yn flaenorol, ac ychwanegwyd 2x byrddau picnic, 5x meinciau a 2x potiau blodau (cyfanswm £3500) a lectern yn Cwm Cywarch (£1000) Gofynnwyd i'r Clerc ychwanegu hyn i'r yswiriant ar y dealltwriaeth na fyddai yr ychwanegiad yn fwy na £100.

9. **Cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned ar bwyllgorau / sefydliadau allanol.**

Cadarnhawyd y canlynol;

Un Llais Cymru – Cyng Wyn Lewis a Catrin Johnson

Neuadd Dinas Mawdwy – Cyng Sion Alun Roberts

Neuadd Aberangell – Cyng Berwyn Harding.

Pwyllgor yr Hen Fynwent – Cyng Catrin Johnson a Lyn Mccrickett

Dyfi Biosphere – Cyng Rhys Davies.

**10. Materion Cynllunio**

**NP5/74/LB9G – caniatad ar gyfer adeilad rhestredig ar gyfer newidiadau mewnol - Brigands Inn Mallwyd –** roedd hwn wedi ei ddanfon allan i bawb 24.04.26. Penderfynwyd fod y Cyngor yn gefnogol i'r cais. Byddai hyn yn gwella safon y gwesty, hwyluso rhediad y busnes, ac yn ei dro creu gwaith ac yn helpu'r economi.

**NP5/74/343A – uwchraddio safle telethrebu presennol, gan gynnwys gosod generadur a datblygiad ategol – Penanntigi Uchaf, Dinas Mawddwy -** roedd hwn wedi ei ddanfonwyd allan i bawb, ac atebwyd 11.04.26. Nid oedd gwrthwynebiad.

**NP5/ 74/76A – Lleoli1 uned gwyliau a gwaith cysylltiedig ar dir Dolbrawdmaeth, Dinas Mawddwy.** Roedd hwn yn gais gan y Parc i'r Cyngor ei ail-ystyried, ar ol y gwrthwynebiad gwreiddiol yng nghyfarfod 10.12.25. Ar ol hir drafod, penderfynwyd peidio gwneud sylw ar y cais.

(roedd datganiad diddordeb gan y Cyng John P Roberts pan drafodwyd y rhain)

**11. Materion Cyllid.**

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, (13.05.26), sef Cyfri Cyfredol £10,760.74, Cyfri Claddedigaeth £1473.79, Cyfri Cadw £800.91.

   Nodwyd derbyn **rhan gyntaf y praesept** am 2026-27, sef £7500. Roedd cais am ad-daliad y VAT wedi ei wneud gan y Clerc , ac roedd £1838.98 i law.

   **Cyflwynwyd cyfrifon 2025-26** yn swyddogol I'r Cynghorwyr. Roeddent wedi eu paratoi a'u danfon i'r archwilydd mewnol, a bellach wedi eu dychwelyd heb unrhyw ymholiadau. Cadarnhwyd fod y cyfan yn gyflawn i'w cyflwyno i'r archwilydd allanol maes o law, ac byddai yr hysbyseb gyhoeddus wedi ei baratoi.

b) **Anfonebau i'w talu;**

   **Nodwyd gohebiaeth ac anfoneb y cwmni yswiriant Clear Councils**, am gyfanswm o £574.53 a chadarnhawyd manylion y gorchudd yswiriant ar gyfer

2026-27. (Roedd y cyfan wedi ei ddanfon allan ymlaenllaw I'r Cynghorwyr ar 3.05. 26)

Ar gynnig Cyng Catrin Johnson a'I eilio gan Cyng Wyn Lewis, cytunwyd I'w dalu, ynghyd a'r canlynol;

- Aelodaeth Un Llais Cymru - £167

c) Ceisiadau am arian

Urdd – Cronfa cyfle i bawb - £230.

d) Ymholwyd am sefyllfa bancio ar-lein, a byddai'r Clerc yn ymchwilio erbyn y cyfarfod nesaf.

**12. Gohebiaeth.**

a) Nodwyd Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru, a byddai'r Clerc yn trefnu fel bo'r angen.

**b)** Nodwyd ohebiaeth am broblemau beiciau modur yn Cerist. Adroddwyd bod gwaith ar y gweill yno, a byddai rhaid trafod eto.

**c)** Nodwyd gais i chwalu llwch ym mynwent Llanymawddwy. Roedd angen edrych i mewn ymhellach i hyn, a byddai'r Clerc yn siarad gyda Chyngor Gwynedd.

**d)** Roedd lythyr o gefnogaeth wedi ei ddafnon gan y Clerc parthed cais grant i Sioe Dinas Mawddwy – roedd hwn wedi ei ddanfon i bawb er gwybodaeth.

**e)** Tacluso maes parcio Llanymawddwy – roedd hyn wedi ei drefnu a'i wneud gan Cyng John P Roberts a Sion Alun Roberts, a diolchwyd iddynt

**f)** Torri gwair mynwentydd yn 2026 – cadarnhawyd bod pob dim yn iawn i'r contreactor Gareth Wyn Davies i wneud y gwaith mor fuan a sy'n gyfleus iddo, a byddai'r Clerc yn cysylltu gydag ef..

**g)** Roedd gwybodaeth i law am Gronfeydd Cymunedol Parc Eryri, a chytunodd y Clerc i ymholi ynglyn a chael cymorth o dan haen 1 o'r grantiau i gael addurnidau i'r goeden Nadolig.

**h)** Roedd gohebiaeth am brosiect 'Perthyn' i law, a byddai'r Clerc yn dosbarthu.

**13. Unrhyw Fater arall.**

a) Roedd lluniau i law am broblem dwr yn parhau ym maes parcio Neuadd Aberangell, a byddai'r Clerc yn pasio rhain ymlaen i Gyngor Gwynedd.

b) Roedd ychydig o waith ei angen i dacluso oddiamgylch y ffynhonau yn Aberangell, a chytunodd Cyng Rhys Davies wneud hyn, a diolchwyd iddo.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER 8fed o Orffennaf 2026 , 8.00y.h.**